## CYPE(5)-18-20 - Papur i'w nodi 3

Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**
—
Welsh Parliament
**Children, Young People and Education Committee**

Kirsty Williams AS, y Gweinidog Addysg
Dyddiad | Date: 08 Gorffennaf 2020
Pwnc | Subject: **Addysg ddewisol yn y cartref**

Annwyl Kirsty,

Rwy'n ysgrifennu yn dilyn eich Datganiad Ysgrifenedig ar 22 Mehefin 2020 am y cynigion ar gyfer y canllawiau statudol ar addysg yn y cartref a rheoliadau drafft y gronfa ddata addysg.

Fel y gwyddoch, wedi inni ohebu â chi ynghylch y mater hwn sawl gwaith dros y 18 mis diwethaf, mae gan y Pwyllgor ddiddordeb ym maes addysg ddewisol yn y cartref.

Roeddem yn siomedig felly o glywed yn eich cyhoeddiad yn ddiweddar "na fydd bellach yn bosibl cwblhau'r gwaith a gynlluniwyd ar y canllawiau statudol ar addysg yn y cartref a rheoliadau drafft y gronfa ddata addysg yn ystod tymor y Llywodraeth hon".

Fel Pwyllgor, rydym yn deall yn llawn y pwysau sylweddol sydd ar Weinidogion Cymru a swyddogion y Llywodraeth o ganlyniad i'r argyfwng iechyd cyhoeddus presennol. Fodd bynnag, rydym yn parhau i gredu bod angen gweithredu i amddiffyn hawliau plant sy'n cael eu haddysgu yn y cartref. Rydym yn ymwybodol eich bod chi, fel ninnau, yn prydereu'n arw am blant a phobl ifanc sydd "ynghudd" yn ystod y pandemig ac yn credu bod hyn yn cryfhau'r ddadl bod angen dybryd i weithredu yn y maes hwn.

Sylwn fod Comisiynydd Plant Cymru wedi ysgrifennu atoch i amlinellu ei phryderon sylweddol am y cyhoeddiad hwn ac mae wedi gofyn nifer o gwestiynau ynghylch sut y gwnaed y penderfyniadau hyn. Byddwn yn ddiolchgar pe gallech anfon copi o'ch ymateb i'r cais hwn.

Yn gywir

**Lynne Neagle AS**
**Cadeirydd**

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg | We welcome correspondence in Welsh or English.

Cc Yr Athro Sally Holland, Comisiynydd Plant Cymru

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddPPIA@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddCYPE@senedd.wales
0300 200 6565